

**Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio
Gogledd Cymru**

2021- 2024

Diweddariad ar Gynnydd - Mai 2021

Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol 2021 – 24.....	3
2.	Cyflwyniad.....	4
3.	Llywodraethiant.....	5
4.	Meysydd cynnydd penodol.....	6
5.	Cynllun Cyflawni a diweddariadau.....	7

1. Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth:

‘Gall pobl Gogledd Cymru fyw bywydau diogel, cydradd a di-drais, mewn cymunedau heb ddioddef camdriniaeth na chamfanteisio.’

Mae Gogledd Cymru yn cydweithio ar dacro pob agwedd o Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol a Chamfanteisio.

Mae Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn cynrychioli’r holl bartneriaid statudol ac anstatudol ledled y rhanbarth, gydag ymrwymiad i ddull cydweithredol a chydlynol o fynd i’r afael â phob elfen o fregusder a chamfanteisio.

Mae Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 yn cynnwys dull amlasiantaeth o fynd i’r afael â bregusder a chamfanteisio yng Ngogledd Cymru. Mae agenda Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern wedi eu halinio â’r pedwar Amcan Strategol:

PARATOI ATAL GWARCHOD YMROI

Mae'r Strategaeth yn galluogi ac yn cefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau presennol, er mwyn darparu pecyn cydunol o gymorth i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Mae'r strategaeth hefyd yn sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol ac yn cefnogi cymunedau er mwyn hyrwyddo ethos o ddiogelwch, cydraddoldeb a lles.

2. Cyflwyniad

Cyfarfu Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru am y tro olaf yng ngwanwyn 2020, gyda'r bwriad o gwblhau diwygiad o strwythur y Bwrdd Strategol ledled Gogledd Cymru. Yn dilyn swm sylweddol o waith a chydweithio, penderfynwyd y byddai'r agenda VAWDASV yn ymuno â Chaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddu Mewnffudo Cyfundrefnol a meysydd eraill o gamfanteisio troseddol.

Datblygwyd Strategaeth newydd sydd yn mynd drwy'r camau cadarnhau olaf. Bydd copi o'r Strategaeth yn cael ei gyhoeddi a'i rannu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae'r Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio yn dangos yn glir bod Gogledd Cymru rhwymedig i daclo camfanteisio ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a bod hynny yn flaenoriaeth i bob partner yn y sectorau statudol ac anstatudol.

Mae'r Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio yn rhwydwaith strategol o Fwrdd Partneriaeth Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru, sydd yn rhwydwaith strategol o asiantaethau sydd wedi eu halinio ledled y chwe Ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), sydd yn cynnwys sefydliadau yn y sectorau statudol, anstatudol a'r trydydd sector.

Pwrpas y bartneriaeth strategol yw creu ymateb cydlynol, effeithlon a chynhyrchiol er mwyn taclio Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a Chaethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Troseddu Mewnffudo Cyfundrefnol a Chamfanteisio. Byddwn yn cyflawni hynny drwy:

- Gydweithio er mwyn sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau allai fod yn agored i niwed a/neu sydd yn dioddef camfanteisio, yn cael eu henwi a'u clywed er mwyn sicrhau'r deilliant gorau iddyn nhw.
- Meithrin ymddiriedaeth a hyder drwy weithio gyda ac yn ein cymunedau.

Mae'r Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio wedi cael ei ddylunio i gynnal ac arwain y gwaith partneriaeth, yn ogystal â goruchwyllo'r broses o gyflawni'r amcanion strategol, gan yr holl bartner asiantaethau, o dan y Strategaeth Ranbarthol, yn ogystal â deddfwriaeth genedlaethol berthnasol.

Mae'r Strategaeth bresennol yn cwmpasu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud o dan yr agenda Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn ogystal ag agweddau eraill o gamfanteisio. Nid yw'n gwanhau y gwaith blaenorol a wnaed o dan gyfarwyddyd Bwrdd VAWDASV, ond yn hytrach mae'n ein cefnogi i ystyried yr agenda o safbwynt mwy holistig, gan ddatblygu meysydd newydd o gydweithredu, o ran darpariaeth, ac o ran ymchwilio i gyfleoedd newydd ar gyfer cyd-gomisiynu.

3. Llywodraethiant

Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru fydd yn atebol am y strategaeth a chyflawni'r amcanion. Dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, Swyddfa Gogledd Cymru Comisiynydd yr Heddlu a Troseddu, mae'r Bwrdd Partneriaeth Strategol yn darparu trosolwg, cyfarwyddyd a chymorth i bartneriaid lleol er mwyn sicrhau dull cydweithredol. Cyfarfu'r Bwrdd yn chwarterol er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd tuag at gyflawni'r Nodau ac Amcanion Strategol fel ymlinellwyd hynny yn y Cynllun a Chamau Cyflawni. Er bod y chwe ardal Awdurdod Lleol a'r partner asiantaethau ledled Gogledd Cymru yn gyfrifol am bennu eu cynlluniau gweithredu eu hunain mewn ymateb i anghenion penodol eu hardaloedd lleol eu hunain, anogir y cynrychiolwyr i ddiweddarau ac adrodd ar eu cynnydd a'r rhwystrau i lwyddo, sydd yn gymesur â'r Cynllun Cyflawni Strategol.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio yn cyfarfod â chymheiriaid o'r Bwrdd, y Byrddau Diogelu (oedolion/plant), Bwrdd Herio, Bwrdd Cyfiawnder a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod meysydd gwaith yn cael eu halinio.

Cynrychiolwyr a Phartneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio

- Cyngor Ynys Môn
- Barnardo's / Independent Child Trafficking Guardians (ICTGs)
- BAWSO
- BCUHB
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- DASU
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Haven of Light
- Carchar Y Berwyn
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- RASASC Cymru
- Tîm VAWDASV Rhanbarthol
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-gaethwasiaeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

4. Meysydd cynnydd penodol yn ystod 2020/21

Roedd 2020/21 yn flwyddyn o bryder, amharu a phwysau anrhagweladwy difrifol i'r holl bartneriaid, yn arbennig y rhai sydd yn darparu cymorth rheng flaen i'r rhai sydd yn wynebu'r risg mwyaf o gamdriniaeth a chamfanteisio. Mae ein gwasanaethau arbenigol wedi gweld cynnydd anferth o 40-50% mewn atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwn, ond maent wedi gorfod cydbwysu'r gwaith ychwanegol hwnnw gyda chyfyngiadau'r pandemig, cyfyngiadau lleol a chyfnodau clo llawn.

Yn ystod 2020/21 cafwyd cynnydd anferthol mewn cymorth ariannol ar gyfer y sector arbenigol, a chroesawyd hynny, ond daeth hynny â'i broblemau ei hun, oherwydd roedd y rhan fwyaf o'r arian ar gyfer darpariaeth frys yn hytrach na phrosiectau cynaliadwy hirdymor.

Er gwaetha'r rhwystrau niferus oedd yn bodoli, llwyddwyd i gymryd camau arwyddocaol ymlaen, yn arbennig yn y meysydd isod:

1. Arian cyfalaf i unedau
2. Cyfleusterau tystiolaeth o bell wedi eu lleoli mewn darpariaeth sector arbenigol
3. Offer brys (cysylltiedig â Covid)
4. Cymorth ac offer i blant ac oedolion gael mynediad i dechnoleg er mwyn cael cymorth a rhyngweithio cymdeithasol
5. Hyfforddiant i uwchsgilio'r gweithlu arbenigol
6. Hyfforddiant arbenigol i gefnogi staff â thrawma amrywiol a goruchwyliaeth glinigol uwch
7. Darpariaeth ar-lein ym mhob maes cymorth

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
Amcan VAWDASV 1	Gwella mynediad i wybodaeth ansawdd uchel a chyfredol ar VAWDASV a'r help sydd ar gael mewn mannau cyhoeddus ac ar-lein drwy hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ac adnoddau ledled y rhanbarth	Tîm VAWDASV Rhanbarthol	Grant cyfathrebu wedi ei ddefnyddio i brynu nwyddau Byw Heb Ofn er mwyn eu rhannu mewn mannau hygyrch mewn ardaloedd gwledig e.e. Meddygfeydd a fferyllfeydd.
	Hyrwyddo rhaglenni cymorth teuluol a rhiantu priodol er mwyn sicrhau bod perthnasoedd diogel ac iach yn cael eu modelu a bod unrhyw agweddau amhriodol tuag at gydraddoldeb rhywiol yn cael eu herio a'u taclo yn briodol.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Gwaith gyda phartneriaid i barhau er mwyn edrych ar raglenni cymorth i deuluoedd a rhiantu a ddarperir gan wasanaethau statudol. Gwasanaethau arbenigol yn cael eu comisiynu erbyn hyn er mwyn darparu cymorth rhiantu priodol.
	Rhoi Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio mewn rolau sy'n delio â'r cyhoedd wedi eu harfogi'n llawn i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.	"Awdurdodau Perthnasol" o dan ddeddfwriaeth 2015.	Cyflwyno Grŵp 1 wedi ei gwblhau mewn rhai asiantaethau, ond llawer o waith i'w wneud mewn rhai eraill. Cyflwyno Gofyn a Gweithredu wedi ei oedi oherwydd Covid.
	Gweithio gyda a chefnogi gwasanaethau BME VAW arbenigol er mwyn ymgymryd â datblygu cymunedol er mwyn herio agweddau diwylliannol a newid arferion allai danategu FGM a phriodi dan orfodaeth.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Eiriolwyr Cymunedol wedi eu comisiynu i gefnogi darpariaeth prif lif a darparu cymorth a chynghor arbenigol.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
	Gweithio gyda chomisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) er mwyn integreiddio VAWDASV i gontractau prif lif er mwyn ymgorffori cymorth i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau cyffredinol.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Gweithio gyda chomisiynwyr HSG, ond dal angen ymgysylltu ag APB, RPB etc.
Amcan VAWDASV 2	Datblygu llwybrau cydnerth i blant a phobl ifanc allu riportio trais a cheisio cymorth a chynghor. Darparu gweithwyr cymorth i blant mewn asiantaethau arbenigol, (yn unol â lefel yr angen a nodwyd) yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau ieuencid, annog defnyddio "hyrwyddwyr" i weithio fel mentoriaid ac i roi cymorth.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio a'r Bwrdd Diogelu Plant	Comisiynwyd gweithwyr Plant a Phobl Ifanc ychwanegol, yn ogystal â darparu technoleg er mwyn galluogi i blant gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymdeithasol. Gwaith gydag ysgolion yn destun oedi o ganlyniad i Covid.
	Gweithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi staff i weithredu ethos wedi ei hysbysu gan drawma, gan alluogi i bobl ifanc deimlo ei bod yn ddiogel iddynt ddatgelu camdriniaeth.	Grŵp Dull Ysgol Gyfan VAWDASV	Gwaith gydag ysgolion yn destun oedi o ganlyniad i Covid
	Datblygu a darparu rhaglenni er mwyn addysgu, hysbysu a herio plant ifanc ynghylch perthnasoedd iach, camdriniaeth a chydysyniad a gweithio gyda cholegau addysg uwch/bellach ar ddatblygu dull o weithio gyda phobl ifanc er mwyn hyrwyddo'r gwaith o atal VAWDASV a mwy o newid cymdeithasol.	Grŵp Dull Ysgol Gyfan VAWDASV	Gwaith gydag darparwyr AB/AU yn destun oedi o ganlyniad i Covid

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
Amcan VAWDASV 3	Comisiynu rhaglenni cyflawnwyr seiliedig ar dystiolaeth ac ymyriadau i'r teulu cyfan gyda ffocws ar annog a chreu newid ymddygiad ar yr un pryd â diogelu eu dioddefwyr/teuluoedd rhag mwy o gamdriniaeth.	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Choose2Change a'r Hyb Ymyrryd wedi cael eu comisiynu er mwyn darparu rhaglenni newid ymddygiad, a chomisiynu Tadau Gofalgar fel ymyriadau i'r teulu cyfan.
	Gweithio gyda Charchar Y Berwyn er mwyn sicrhau bod cymorth o gystodaeth i'r gymuned yn ddi-dor ar gyfer y cyflawnnydd a'u teuluoedd (os bydd asesiadau risg priodol a chywir yn bodoli). Llwybr cydnerth o asesiad i'r rhaglen yn y carchar ac yna parhad yn y gymuned ar ôl rhyddhau.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Oedi o ran y gwaith gyda Charchar Y Berwyn o ganlyniad i gyfyngiadau lleol a chenedlaethol, ond mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau.
	Sicrhau bod cyflawnwyr VAWDASV bob amser yn atebol am eu gweithredoedd. Darparu hyfforddiant i'r holl staff rheng flaen er mwyn cael ymateb cyson i ddatgeliadau cyflawnwyr a dioddefwyr. Dylai hyfforddiant alluogi'r staff i wneud asesiad risg.	Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol	Mae hyfforddiant mewn gweithio â chyflawnwyr wedi cael ei gomisiynu fel rhan o broses uwchsgilio'r sector arbenigol.
Amcan VAWDASV 4	Peilota'r rhaglen IRIS, gweithio gydag IRISi (cyflwyno darpariaeth cymorth arbenigol mewn meddygfeydd, yn ogystal â darpariaeth iechyd sylfaenol pan fo hynny'n briodol).	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio BCUHB	Cynllun peilot yn destun oedi o ganlyniad i Covid a'r rhaglen frechu. Cais wedi ei wneud i MOJ am arian ac ymgysylltwyd a phartneriaid o IRISi, DASU a BCUHB.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
	Gwneud y mwyaf o bwyntiau a chyfleoedd datgelu mewn cymunedau lleol i oeswyr sydd yn ceisio help yn gynnar (oedolion a phlant) a chyflawnwyr, drwy ymgorffori Gofyn a Gofyn ledled Gogledd Cymru. Sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn deall yr angen i ddarparu amgylchedd diogel er mwyn galluogi datgelu.	Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol	Bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn Ebrill 2020. Sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwyr wedi eu cwblhau, ond oedi o ran cyflwyno mewn ALI nes bydd darpariaeth ar gael. Rhai sesiynau wedi eu cyflwyno yn gynnar yn ystod Gwanwyd 2021 gyda chalendr llawn yn ei le ar gyfer cyflawni yn ystod 2021/22.
	Adeiladu capasiti a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith ymyrryd gyda phlant a phobl ifanc.	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Defnyddiwyd peth o'r arian Brys ychwanegol i adeiladu capasiti, ond mae yna dal fylchau mewn darpariaeth gyson, yn arbennig ar gyfer gwaith mewn ysgolion.
	Parhau i weithio gyda'r system cyfiawnder troseddol er mwyn lleihau dedfrydau o garchar tymor byr i ferched a'u hymgysylltu â gweithgareddau i ddifyrru. Cefnogi'r gwaith i ddifyrru sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a'i bartneriaid, a datblygu mwy ar y cymorth hwn.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Gweithio gyda LIC ar gefnogi'r Glasbrint Benywod Troseddgar.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
	Sicrhau bod gan deuluoedd y nodwyd eu bod angen cymorth o ran byw gyda VAWDASV yn cael mynediad cynnar i gymorth arbenigol er mwyn lliniaru'r trawma sydd yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac fel oedolion.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Cysylltu ag ACE Hub cymaint a phosibl ar gyfer cyfleoedd i gydweithio. Mae'r holl ddarparwyr arbenigol yn cynnig cymorth wedi ei hysbysu gan drawma ac maent wedi cael hyfforddiant arbenigol er mwyn ategu hynny.
	Gweithio gyda darparwyr arbenigol er mwyn hysbysu'r gwaith o ddatblygu ymwybyddiaeth ACE a sut y gellir defnyddio hynny i ymateb i ddiodefwrwr a goroeswyr VAWDASV.	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Gwaith gydag agenda ACE yn destun oedi o ganlyniad i Covid.
	Gweithio gyda darparwyr arbenigol er mwyn sicrhau bod gan oroeswyr fynediad i raglenni adfer seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn eu cefnogi i feithrin gwytnwch ac i gryfhau eu rwydwaith cymorth teulu/ffrindiau.	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Mae'r holl ddarparwyr arbenigol wedi eu hyfforddi i ddarparu rhaglenni seiliedig ar adfer, ac maent wedi eu comisiynu i'w darparu.
Amcan VAWDASV 5	Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau arbenigol yn gallu cefnogi diodefwrwr a goroeswyr sydd yn wynebu nifer o anfanteision drwy ddarparu hyfforddiant seiliedig ar adfer a hysbyswyd gan drawma ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau arbenigol a phartner asiantaethau.	Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol	Hyfforddiant arbenigol wedi ei gomisiynu yn ystod 2020/21 er mwyn cefnogi uwchsgilio staff yn y sector arbenigol.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
	Gwella'r hyfforddiant a ddarperir gan weithwyr proffesiynol a ddaw i gysylltiad â chyflawnwyr er mwyn sicrhau bod datgeliadau yn cael eu rheoli yn briodol, gan roi iddynt ddealltwriaeth o'r angen i gynnwys gweithdrefnau disgyblu/camymddwyn mewnol, yn ogystal â gweithdrefnau cyfiawnder troseddol.	Grŵp Hyfforddiant VAWDASV Rhanbarthol	Hyfforddiant ar-lein wedi ei gomisiynu er mwyn darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio â chyflawnwyr.
	Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, er mwyn sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu o ran cefnogi dioddefwyr VAWDASV drwy ddefnyddio camau unioni sifil.	Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio	Ymgynghorydd Rhanbarthol yn gweithio gyda HMCTS er mwyn edrych ar hyfforddiant i ustusiaid a staff llysoedd. Mae hynny wedi bod yn destun oedi o ganlyniad i Covid.
	Gweithio gyda chomisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) er mwyn integreiddio VAWDASV i gontractau prif lif er mwyn ymgorffori cymorth i ddiodefwyr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau cyffredinol.	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Gweithio gyda chomisiynwyr HSG, ond dal angen ymgysylltu ag APB, RPB etc.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
Amcan VAWDASV 6	<p>Sicrhau bod yna gymorth hirdymor yn ei le ar gyfer holl oroeswyr VAWDASV er mwyn iddynt wella o'u profiadau, gan ddefnyddio ymyriadau seiliedig ar adfer ac a hysbyswyd gan drawma.</p> <p>Dylai cymorth penodol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymorth arbenigol i rai sydd wedi dioddef FGM, HBV, FM a/neu nad ydynt yn gallu cael mynediad i arian cyhoeddus. • Cymorth tai, hyrwyddo cefnogaeth i ddioddefwyr allu aros yn eu cartrefi, a'r cyflwynydd yn cael ei yrru allan • Cymorth trais rhywiol 	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Mae gwasanaethau arbenigol wedi derbyn arian ychwanegol yn ystod 2020/21 er mwyn sicrhau y gallent ddarparu cymorth parhaus, drwy lwybrau eraill a thrwy ddefnyddio technoleg. Mae'r holl sesiynau cymorth wedi cael eu darparu ar-lein ac erbyn hyn mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y newid i ddarpariaeth wyneb yn wyneb yn cael ei wneud yn ddiogel.
	<p>Sicrhau bod gan ddioddefwyr VAWDASV gymorth priodol drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, o ddatgelu i'r erlyniad. Darparu darpariaeth IDVA/ISVA cyson ledled Gogledd Cymru, gan gynnig yr un gwasanaeth i ddioddefwyr VAWDASV, ble bynnag maent yn byw yng Ngogledd Cymru.</p>	Grŵp Cydgomisiynu VAWDASV Rhanbarthol	Darpariaeth IDVA rhanbarthol yn gyson ledled Gogledd Cymru, yn cael e ddarparu gan ddau bartner asiantaeth. Mae cyfarfodydd monitro rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r ddwy asiantaeth, y comisiynwyr a NWP, er mwyn sicrhau y delir ag unrhyw heriau yn amserol.

Amcan	Gweithredoedd	Perchennog	Cynnydd/RAG
	<p>Darparu proses MARAC safonedig, gyda thrafodaethau achos rhithiol rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd misol er mwyn ystyried achosion mwy cymhleth. Pob ardal i gael ei fonitro'n rheolaidd o ran llywodraethiant a gweithredu prosesau.</p>	<p>Partneriaid y Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio</p>	<p>Mae cyfarfodydd MARAC (rhithiol) wythnosol yn cael eu cynnal erbyn hyn yn y chwe ardal ALI, yn ogystal â chyfarfodydd misol er mwyn ystyried achosion mwy cymhleth. Grŵp llywio MARAC rhanbarthol wedi ei sefydlu er mwyn darparu cysondeb a chymorth.</p>

